

# CYNGOR CYMUNED YSTRAD FFLUR

## TRAFODAETH ANFFURFIOL YN YSTOD “CYFARFOD” RHITHIOL

## NOS IAU 16.07.2020 AM 7PM

**Yn Bresennol:** Y Gyngh. Clare Hughes; Y Gyngh. Laura Jones; Y Cynghorydd Sirol Ifan Lloyd Davies; Eleri Thomas (Clerc)

**Ymddiheuriadau am Absenoldeb:** Y Gyngh. Angharad Jones, Cadeirydd Cyngor Cymuned Ystrad Fflur (anawsterau technelegol parthed offer y rhyngrwyd); Y Cyngh. Gareth Owen, Dirprwy-Gadeirydd Cyngor Cymuned Ystrad Fflur (yn gweithio); Y Cyngh John Jones (cyfarfod arall i fynychu); Y Gyngh. Mair Jones (heb fod yn gwneud defnydd o’r rhyngrwyd); Y Cyngh. Non Jones (yn methu cysylltu via Zoom); Y Cyngh. Alun Price Jones (heb fod yn gwneud defnydd o’r rhyngrwyd) &’r Cyngh. Doug Rowbotham.

Gan nad oedd nifer y Cynghorwyr yn bresennol yn ffurfio Cworwm, ni fu’n bosibl cynnal cyfarfod rhithiol. **Trafodwyd y canlynol yn anffurfiol:**

1. **Caniateir Ardaloedd Chwarae** i agor ddydd Llun nesaf sef yr 20fed o Orffennaf 2020. Gellir arddangos arwydd i ddefnyddwyr Ardal Chwarae Pantyfedwen yn gofyn iddynt gadw at fesurau pellhau cymdeithasol o 2 fetr; defnyddio gel llaw cyn ac ar ôl derbyn mynediad i’r parc a bod yn ymwybodol eu bod yn defnyddio’r parc ar risg eu hun.

2. **Cynhaliwyd Archwiliad Diogelwch Chwarae ROSPA** Ardal Chwarae Pantyfedwen yn ystod mis Mehefin 2020. Angen gwelliannau. Dosbarthwyd yr Adroddiad at sylw aelodau i’w hystyried yn ystod y cyfarfod nesaf.

3. **Cronfa Harley Harvey:** Cytunodd y Cyngh. Sirol Ifan Lloyd Davies yn ystod y cyfarfod diwethaf i symud y mater yn ei flaen. 2 siec i’w hanfon (£250 yr un i Erin a Shaun Harvey).

4. **Gwelir problemau parcio** yng nghyffiniau mynedfa Dolebolion a Stryd y Felin.

5. **Grant Gwyrdd Cyngor Sir Ceredigion**: Gofynnodd Cyngor S.C am wybodaeth pellach.

6. **Ysgoloriaeth y Dywysoges Sapieha 2020**: Gwobrwyir i Gwenno Evans (£20).

7. **Diwrnod Buddugoliaeth dros Japan (VJ) 15.08.2020**: i weithredu ar benderfyniad y cyfarfod cynt.

Daeth y drafodaeth i ben am 7.40pm. **Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol:** Nos Iau 17eg Medi 2020 @7pm. **Cyfarfod Misol** i ddilyn.